Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Abergynolwyn, Nos Lun 13eg Mehefin, 2016 am 7.00 o'r gloch

Presennol: Gadeirydd Wendy Whitby, H.E. Thompson, Gareth Evans, Clare Crowley, Elwyn Evans, Robert Jones, Cynghorwr Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.

Ymddiheuriad: Is Gadeirydd Eleri Puw,(angladd)

Datgan Diddordeb: Cyng Elwyn Evans(eisteddfod)

Croeshawyd pawb gan y Cadeirydd.
Croeshawyd Meirion Jones, Heddwas Gymunedol. Trafodwyd rhai problemau y pentref, sef parcio o Lichfield lawr i waelod Stryd Llanegryn, lle ar penwythnos parcio yn creu problem wrth y cyffordd. Heddwas Jones i gael gair ar perchennog i ddatrys y parcio. Nodwyd bod cerbyd wedi parcio yn y Cwrt ers amser a phasiwyd yw symud. Mae problem gyrwyr ieuanc o gwmpas ond mi oedd yr Heddwas yn ymwybodol o hyn ac wedi edrych i fewn iddo.

Nodwyd mai tri plismon oedd yn Nhywyn gyda dau gymunedol.

Nodwyd mae dau drosedd a cofnodwyd eleni, sef beic bach a defaid.
Derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol a Mai a'u llofnodi gan y Cadeirydd

1. Cae Chwarae: Dim yn codi. Pasiwyd i dalu Sean's Lawns.
2. Mynwent: Y arwyddion wedi eu paratoi gan y Cyng Lawton, Cyng Gareth Evans a Robert Jones yw gosod ar gatiau y mynwentydd. Diolch iddynt. Pasiwyd talu i Sean's Lawns a Cyngor Gwynedd (bin)
3. Llwybrau: Derbyniwywd llythyr gan Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Dros Dro Adran Rheoleiddio, n trafod newid yn nhrefniant ad-daliadau costau cynnal Llwybrau Cyhoeddus. Arferiad cael ad daliad llawn ond am 2016 / 17 bydd toriad o £600.00 i £450.00 I'n Cyngor ni. Nodwyd ar y Rhaglen waith bod gwaith ar Llwybyr March 11 a Llwybyr Cyhoeddus rhif 10 (Bodilan) sef giatiau, pyst cyfeirbwyntio, a pont.
4. Adroddiad Cynghorwr Gwynedd: Nododd ei bod wedi cael cwynion am mynwentydd ac ochrau ffyrdd heb eu torri , hefyd cost y biniau brown yn codi £33. Diolch Cyng Lawton.
5. Ciosg: Minffordd ddim yn gwiethio.
6. Dathliad ar achlysur penblwydd y Frehines yn 90 oed: Addurnwyd Y Ganolfan a pharatowyd bwyd gan aelodau y Carnifal. Yr oedd y lle yn orlawn a pleser oedd gweld y cyfeillgarwch. Y gôst dros £80 a nodwyd bod £97.40 dros ben o'r raffl a rhoddion. Pasiwyd i'r arian yma gael ei roi i goffre y Tân Gwyllt ym mis Tachwedd. Diolchwyd i'r merched am eu gwaith.
7. Archwiliad Mewnol: Nodwyd y bydd ar 14eg o Fehefin yn Nhywyn.
8. Carnifal: Dydd Mawrth 26ain Gorffennaf am 2 o'r gloch y byddwn fel Cyngor yn rhedeg Tombola er budd Y Ganolfan.
9. Un Llais Cymru: Adroddwyd bod Lyn Cadwaladr yn annog y Cynghorau Cymunedol i gael llais y Cyhoedd er mwyn penderfynnu sut i ddelio ar chyfrifoldebau ychwanegol a ddaw i'n rhan.
10. Grwp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth: Neuadd Dyfi 21.06.16 2 – 4.30 a 6 – 8.30.

11. Apêl am arian: Derbyniwyd llythyr gan Eistedfod Abergynolwyn. Trafodwyd a phasiwyd i roi rhodd arferol.

12. Parc Eryri: Derbyniwyd dyddiadau pwyllgorau. Derbyniwyd rhaglen cyfarfod yn Abergynolwyn nos Fawrth 5ed Gorffennaf 6 – 9 o'r gloch. Nodwyd bod cais cynllunio Dol Idris wedi ei basio. Nodwyd bod Ymgynhoriad Cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft – Goleuo Ymwthiol(Llygredd Golau) ar lein, llyfrgell ac yn y Parc.-atebion erbyn 13/7.

13. Praescept: Derbyniwyd £2877.50

14. Cod Ymddygiad i Aelodau: Derbyniwyd copi newidiadau o 1/4/16 gan Cyngor Gwynedd - 2016 – 2017 Tudalen 3

Cadeirydd……..dyddiad ……

15: Coed : Derbyniwyd llythyr pryder gan Royston Jones ynglyn a choed oedd yn cwympo yn ymyl yr Hendre. Pasiwyd yw gefnogi a danfon ymlaen at Adran Briffyrdd.

15. Pasiwyd i wneud apêl i'r Gang Gymunedol ddod i Stryd Llanegryn a'r bont ger Hen Dy'r Heddlu i ddifa chwyn.

16. Taliadau;

Sean's Lawns	gwair	£252.00	siec 868
Cyngor Gwynedd	bin	67.00	869
Eisteddfod	rhodd	150.00	870

YMDDIRIEDOLAETH MARI JONES:.

Derbynwyd arian gan Y Cyng Evans allan o'r bocs pres – £6.00
Nodwyd y gallem dacluso tu fewn i'r waliau
Pasiwyd i ad dalu costau Blwch Mari Jones i'r Cyngor, sef £218.32. / siec 000001

Cyfarfod Nesaf 11eg Gorffennaf. Cyffredin am 7 o'r gloch